



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr  
Princess Way  
Bracla  
Pen-y-bont  
CF31 2LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/08/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Bro-Ogwr, sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg, yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae 428 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae gan yr ysgol 16 dosbarth sy'n cynnwys 2 sy'n rhai oed cymysg a 2 ddosbarth meithrin. Mae 46 o ddisgyblion oed meithrin llawn amser ac 11 yn y dosbarth cyn-feithrin rhan amser. Daw tua 5% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 18% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigur sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae gan oddeutu 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae pennaeth dros dro yn gofalu am yr ysgol ers Hydref 2016. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn 2016-2017 yw £2,952. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhen y bont ar Ogwr yw £4,484 a'r lleiafswm yw £2,872. Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn y 46fed safle o'r 48 ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt
- y staff yn darparu profiadau dysgu cynhwysfawr i'w disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi'n dda
- y staff yn cymhwyso gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn fwriadus i'w cynlluniau gwaith er mwyn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd dros gyfnod
- y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol mewn llawer o ddsbarthiadau
- y gymuned yn un ofalgar lle mae blaenoriaeth amlwg i les ei disgyblion, gyda phob un yn dangos parch a gofal am ei gilydd
- yr ethos yn un cartrefol a chynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth a chyfraniad gwerthfawr yr uwch dîm rheoli, yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol
- arweinwyr yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy weithredu cylch o weithgareddau monitro effeithiol sydd wedi eu cynllunio'n dda
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o dargedau gwella perthnasol
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac sy'n ehangu eu profiadau dysgu yn dda
- yr ysgol wedi ei staffio'n effeithiol ac mae'n gwneud defnydd llwyddiannus o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- y staff cynorthwyol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y dysgu
- yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

- A1 Ymateb i'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolwg
- A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion
- A3 Gwella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
- A4 Rhannu arferion gorau y Cyfnod Sylfaen ar draws y cyfnod
- A5 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr i'w galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol ynghylch ei pherfformiad

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion yn isel o ystyried eu hoed. Er hyn, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan ac, erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r medrau ganddynt i siarad yn gynyddol gywir a hyderus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon a gall y mwyafrif ar frig cyfnod allweddol 2 gynnal sgysiau estynedig yn y ddwy iaith, gyda'r rhan fwyaf yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth yn hyderus.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ac yn unol â'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn trafod eu llyfrau yn synhwyrol ac mae ganddynt wybodaeth gynyddol am wahanol fathau o lyfrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir, gyda dealltwriaeth sy'n unol â'u hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau o'u llyfrau darllen yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u huwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi eu gwaith dosbarth, er enghraifft wrth ymchwilio i fenywod enwog y byd, fel Anne Frank. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau cip ddarllen a llithr ddarllen testunau yn effeithiol er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu cerdyn post at Mam. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddiddorol yn y Gymraeg mewn ystod briodol o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol gan atalnodi'n gywir. Wrth i'r disgyblion mwy abl ailysgrifennu stori Sglod a Blod, maent yn dechrau amrywio brawddegau yn grefftus er mwyn cynnal diddordeb y darlennydd. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hyn yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n annibynnol yn ddigon aml.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd mewn brawddegau llawn, gan ddefnyddio atalnodi'n gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu'n ddychmygus mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan ddatblygu eu syniadau'n ddiddorol. Gallant drosglwyddo'u medrau yn effeithiol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft llythyr at ffrind yn disgrifio ymweliad â'r Mosg ac adroddiad am eu gwyliau i Langrannog. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn briodol gan ddefnyddio llawysgrifen bwrpasol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau mathemategol cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ond prin maent yn eu trosglwyddo ar draws pob maes dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif, a defnyddiant restrau, tablau a diagramau syml i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth yn gywir. Mae llawer ohonynt yn deall mesuriadau syml yn dda, ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am rinweddau siapiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhifedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio eu gwybodaeth o ganrannau'n llwyddiannus wrth ddatrys problemau geiriol. Gall y disgyblion mwy abl ddatblygu eu strategaethau eu hunain wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth yn systematig a chywir ar ffurf tablau a graffiau wrth iddynt gofnodi canlyniadau arbrawf hydoddi. Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ac maent yn eu trosglwyddo'n effeithiol i feysydd eraill y cwricwlwm, er enghraifft darllen graddfa i gyfrifo pellter o amgylch Awstralia.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd addas o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n briodol er mwyn cyflwyno gwybodaeth. Mae'r mwyafrif yn dechrau rheoli tegau yn hyderus er mwyn dilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn greadigol ac yn creu rhaglenni syml ac yn ychwanegu sain yn hyderus. Mae llawer yn creu lluniau symudol trwy ddefnyddio lluniau a delweddau'n effeithiol. Maent yn medru defnyddio meddalwedd ar lechi electronig i gefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o ddisgyblion yn datblygu eu medrau i gasglu ac arddangos data yn brin. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngwrdd.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Maent bellach yn cymharu'n fwy ffafriol â disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'r targedau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliannau disgwylidig ac uwch gan amlaf yn gyson uchel ac yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefelau disgwylidig (lefel 4) ac uwch (lefel 5) dros y pedair blynedd ddiwethaf mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol, gan amlaf, rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

## **Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth sicr o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Maent yn cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol yn rheolaidd, ynghyd â nifer o weithgareddau allgyrsiol, fel y clwb rhedeg, rygbi a phêl-droed.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser cinio ac amser chwarae. Dangosant barch a chwarteisi tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cyfrannu'n dda mewn gwersi. Er hynny, nid yw'r disgyblion hŷn bob amser yn gweithio'n ddigon annibynnol nac yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn effeithiol. Er enghraifft, mae gwaith yr arweinwyr digidol i godi ymwybyddiaeth diogelwch y we eu cyfoedion yn effeithiol. Mae aelodau'r cyngor ysgol, eco a llyfrgell yn rhoi ystyriaeth lwyddiannus i sylwadau eu cyd-ddisgyblion. Mae'r cyngor ysgol yn codi arian yn rheolaidd ar gyfer amrywiaeth o elusennau ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall bod yna bobl sy'n llai ffodus na nhw. Maent hefyd wedi cyflwyno grog Cymry cŵl sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar holl ddisgyblion yr ysgol i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o fentergarwch trwy greu a gwerthu nwyddau a rhedeg y siop ffrwythau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth bwrpasol o'u rôl yn y gymuned leol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i berfformio mewn ychydig gyngherddau ac maent yn ymweld â busnesau lleol. Mae'r cyfleoedd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon yn y bore ac mae cyfradd presenoldeb yr ysgol, o'i chymharu ag ysgolion tebyg, yn ei gosod yn gyson rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf dros bedair blynedd.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cynhwysfawr i'w disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi'n dda. Mae'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd rhwng tasgau wedi'u harwain gan oedolion a rhai sydd wedi'u hysgogi gan blant yn llai effeithiol yn nosbarthiadau hŷn y Cyfnod.

Mae staff yn cymhwyso gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn fwriadus i'w cynlluniau gwaith er mwyn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd dros gyfnod. Maent yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a medrau meddwl y disgyblion. Fodd bynnag, priodol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu pob elfen o fedrau TGCh y disgyblion.

Mae staff yn darparu ystod addas o raglenni ymyrraeth effeithiol ar draws yr ysgol, sy'n dylanwadu'n gryf ar safonau'r disgyblion sydd angen cymorth.

Mae gweithgareddau allgyrsiol ac ychwanegol fel teithiau addysgol i ymweld â, er enghraifft, Llancaiach Fawr, gweithdai a chyflwyniadau gan ymwelwyr, fel Bardd Plant Cymru, yn cyfoethogi gwybodaeth a medrau cymdeithasol y disgyblion ymhellach yn effeithiol.



Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr. Gwahoddir artistiaid preswyl i gydweithio â'r disgyblion, a chaiff yr ymweliadau hyn effaith gadarnhaol ar eu safonau cyflawniad. Rhoddir lle blaenllaw i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r diwylliant lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a thrafod llyfrau sydd newydd eu cyhoeddi ar restr fer Tir Na Nog.

O dan arweiniad y pwyllgor eco, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd. Maent yn ailgylchu gwastraff ac yn dysgu am amgylchedd yr ysgol trwy ddatblygu'r ardal goedwig a'r ardal wyllt. Mae cyfleoedd effeithiol iddynt ddysgu am ddinasyddiaeth fyd eang, sy'n magu eu dealltwriaeth o fywyd pobl mewn gwledydd eraill. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau sy'n eu dysgu am waith ffermwyr Masnach Deg.

### **Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol mewn llawer o ddsbarthiadau ar draws yr ysgol. Mae gan fwyafrif yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir ag elfennau dysgu blaenorol. Maent yn cynllunio tasgau diddorol i'r disgyblion ac yn gwneud defnydd pwrpasol o offer ac adnoddau i ysgogi eu diddordeb. Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu. Yn yr ychydig enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn yr achosion hyn, mae'r athrawon yn cyfarwyddo'r gweithgareddau yn ormodol ac yn cyfyngu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr digon annibynnol. Mae'r holl staff yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio dulliau holi a chwestiynu effeithiol yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon i osod targedau ar gyfer gwella ac adnabod unrhyw dangyflawniad yn gynnar. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safon eu gwaith. Mae'r mwyafrif yn trafod eu targedau'n syml, ynghyd â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion ar eu gwaith yn rheolaidd a lle gwelir yr arfer orau, mae'r sylwadau'n eu helpu i wella'u gwaith yn effeithiol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth bwrpasol iddynt am gynnydd a chyflawniad eu plant.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth amlwg i les ei disgyblion, gyda phob un yn dangos parch a gofal am ei gilydd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol a rhoddir cyfleoedd rheolaidd i hyrwyddo'u datblygiad moesol. Ceir cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion trwy weithgareddau'r cwricwlwm a chyfnodau addoli ar y cyd, lle y cânt gyfleoedd i fyfyrion ac i ystyried gwerthoedd pwysig fel bod yn ddiolchgar. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae prosesau effeithiol ar waith yn yr ysgol i hybu gwerthoedd ac i feithrin ymddygiad da, ac mae'r gweithdrefnau sydd ar waith i annog presenoldeb da wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i adnabod a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Trwy ymyrraeth gynnar a chynllunio gofalus, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae hyn yn galluogi llawer ohonynt i wneud cynnydd da ac i ymdopi'n llwyddiannus â gofynion y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol er mwyn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Maent hefyd yn cefnogi rhieni'n briodol pan fo angen, er budd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos yr ysgol yn un cartrefol a chynhwysol. Mae'r ysgol yn hybu naww ofalgar a hapus, gan ddathlu amrywiaeth a gwerthfawrogi cyfraniad pob dysgwr. Prif nod yr ysgol yw rhoi'r profiadau gorau posibl i'r disgyblion i'w paratoi yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd. Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae polisiâu, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae perthynas gefnogol a gofalgar iawn yn bodoli rhwng y disgyblion hyn a'r disgyblion iau yn ystod amser chwarae sy'n annog parch a gofal.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus ac yn dathlu ystod bwrpasol o waith y disgyblion. Mae rhai o amgylch yr ysgol yn adlewyrchu gweithgareddau ehangach yr ysgol yn effeithiol yn ogystal. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

Er bod prinder lle yn yr adeilad, mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r hyn sydd ar gael iddi. Mae'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad a'r safle yn dda. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wneir o'r amgylchedd awyr agored i hyrwyddo dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol, ac nid yw'r safle allanol wedi ei ddatblygu'n llawn ar gyfer anghenion dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Tynnwyd sylw'r llywodraethwyr at fater yn ymwneud â iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth a chyfraniad gwerthfawr yr uwch dîm rheoli, yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae gan y tîm ddisgwyliadau uchel i sicrhau bod bron pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae ganddynt nod clir i gynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol, hybu lles disgyblion a chydweithio'n agos â rhieni. Mae'r pennaeth dros dro a'r uwch dîm rheoli wedi gosod nifer o weithdrefnau newydd a chadarn yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld llawn effaith y rhain ar safonau gwaith disgyblion a threfniadau'r ysgol.

Mae'r staff i gyd yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ac i fonitro cynnydd ym mlaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae pawb yn

dechrau rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dreiddgar o'r data perfformiad ynghyd â gwybodaeth sicr am safonau gwaith y disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi cael digon o amser eto i ymsefydlu na chael effaith ar ddatblygu eu rôl strategol. Nid ydynt yn monitro targedau'r cynllun gwella nac yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd tuag at ymateb yn llawn i holl ofynion y Cyfnod Sylfaen.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy weithredu cylch o weithgareddau monitro sydd wedi eu cynllunio'n dda. Mae'r rhain yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r agweddau ar ei gwaith ac yn dilyn fformat cyson ar draws yr ysgol. Maent yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata trwy ystyried adolygiadau rheolaidd o berfformiad disgyblion a dadansoddiad profion diagnostig. Mae hyn yn cynorthwyo arweinwyr i gynllunio darpariaeth i ddisgyblion yn effeithiol. Ers penodiad y pennaeth dros dro, mae'r holl staff yn cyfrannu'n briodol i brosesau hunanarfarnu a gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae aelodau'r cyngor ysgol wedi dechrau cyfrannu at weithgarwch hunanarfarnu yn achlysurol. Mae arweinwyr wedi ymateb i'w hawgrymiadau ac wedi sefydlu cyngor chwaraeon, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a mwynhad y disgyblion yn ystod amseroedd chwarae. Maent hefyd wedi gweithredu ar yr awgrym i sefydlu gweithdrefn 'Bydis Buarth'.

At ei gilydd, mae'r weithdrefn hunanarfarnu yn darparu gwybodaeth gywir i arweinwyr am brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn adlewyrchu holl ddeilliannau'r weithdrefn yn ddigon manwl. Er hyn, mae trefniadau niferus i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â gwelliannau yn llwyddiannus.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o dargedau gwella perthnasol. Mae'r ddogfen yn deillio o ganfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella safonau dysgu a lles disgyblion. Mae cynlluniau yn nodi targedau mesuradwy gydag amserlen, cyfrifoldebau staff a deilliannau tymor byr a thymor hir. Mae pob blaenoriaeth wedi ei hariannu'n addas ac mae ffocws amlwg ar ddatblygu medrau disgyblion a chyfoethogi'r ddarpariaeth dros gyfnod o amser. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, er enghraifft wrth wella medrau llafar a rhesymu.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac sy'n ehangu eu profiadau dysgu yn dda. Mae'r arweinwyr a staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni gan ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol a'r llythyron tymhorol. Mae Ffrindiau Bro Ogwr yn gwneud cyfraniadau ariannol gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, er enghraifft trwy ariannu i wella coetir yr ysgol.

Mae'r cysylltiadau cyson sydd gan yr ysgol â'r gymuned leol yn cael dylanwad buddiol ar fedrau lles y disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu ati. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn perfformio mewn cyngerdd blynyddol mewn capel lleol ac mae'r cysylltiadau â busnesau lleol yn cryfhau medrau entrepreneuriaid y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r trefniadau pontio effeithiol yn bodoli ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r ysgol o'r cylchoedd meithrin lleol, sy'n eu helpu i ymgartrefi'n gyflym yn eu lleoliad newydd. Mae'r heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cefnogi rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn llwyddiannus mewn perthynas â chadw'n ddiogel yn y gymdeithas ehangach a thrwy hyrwyddo hylendid personol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd wrth safoni gwaith disgyblion. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o ofynion asesu ac yn eu galluogi i lefelu gwaith disgyblion yn fwy cywir. Mae cysylltiad buddiol â'r ysgol uwchradd leol yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n hwylus rhwng un sector a'r llall ac i'w paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n effeithiol ac mae'n gwneud defnydd llwyddiannus o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y dysgu.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir ag amcanion gwella'r ysgol ac mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer gweithredu amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer yr athrawon.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion y clwstwr a'r teulu, ac mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Un enghraifft llwyddiannus yw'r ffordd y mae staff wedi cydweithio i godi safonau llythrennedd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon ac yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r cyllid ar gyfer ariannu gweithdrefnau blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi'i neilltuo'n glir a chaiff ei ddefnyddio'n llwyddiannus i ymateb i anghenion penodol.

Mae'r trefniadau presennol ysgol ar gyfer neilltuo'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio'n effeithiol ar amrywiaeth o raglenni ymyrraeth i wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Caiff hefyd effaith werthfawr ar les a hyder y disgyblion hyn.

O ystyried safonau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6722298 - YSGOL GYMRAEG BRO OGWR

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 429  
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 18.8  
 Grŵp PYD 3 (16%<PYD<=24%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	46	57	68	44
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	97.8	91.2	97.1	97.7
Chwartzel meincnod	1	2	1	1
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwartzel meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwartzel meincnod	*	*	*	*
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	46	57	68	44
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	97.8	91.2	97.1	97.7
Chwartzel meincnod	1	2	2	1
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	34.8	38.6	38.2	50.0
Chwartzel meincnod	2	2	2	1
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	46	57	68	44
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	97.8	94.7	98.5	97.7
Chwartzel meincnod	1	2	1	1
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	39.1	43.9	36.8	52.3
Chwartzel meincnod	1	1	2	1
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	46	57	68	44
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	97.8	98.2	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	2	2	1	1
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	50.0	66.7	66.2	68.2
Chwartzel meincnod	2	1	2	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deiliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartzel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartzel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartzel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6722298 - YSGOL GYMRAEG BRO OGWR**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	429
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaedd 3 blynedd	18.8
Grŵp PYD	3 (16%<PYD<=24%)

**Cyfnod allweddol 2**

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6</b>	29	51	39	46
<b>Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)</b>	96.6	92.2	100.0	97.8
Chwarter meincnod	1	2	1	1
<b>Saesneg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	51	39	46
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.6	94.1	100.0	97.8
Chwarter meincnod	1	2	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	48.3	45.1	51.3	45.7
Chwarter meincnod	1	1	1	2
<b>Cymraeg iaith gyntaf</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	51	39	46
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.6	94.1	100.0	97.8
Chwarter meincnod	2	2	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	41.4	39.2	46.2	45.7
Chwarter meincnod	1	2	1	1
<b>Mathemateg</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	51	39	46
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.6	92.2	100.0	97.8
Chwarter meincnod	1	2	1	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	44.8	37.3	53.8	47.8
Chwarter meincnod	1	2	1	2
<b>Gwyddoniaeth</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	29	51	39	46
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.6	92.2	100.0	97.8
Chwarter meincnod	2	3	1	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	44.8	39.2	48.7	41.3
Chwarter meincnod	1	2	2	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	100	98 98%	2 2%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	100	97 97%	3 3%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	100	98 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	99	99 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	100	98 98%	2 2%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	100	96 96%	4 4%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	100	100 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	100	99 99%	1 1%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	100	94 94%	6 6%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		90%	10%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	100	98 98%	2 2%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	100	66 66%	34 34%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	100	66 66%	34 34%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	82	43 52%	31 38%	7 9%	1 1%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		62%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	82	54 66%	24 29%	3 4%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	82	55 67%	22 27%	5 6%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	81	45 56%	31 38%	2 2%	1 1%	2	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	82	37 45%	32 39%	6 7%	0 0%	7	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	82	42 51%	32 39%	3 4%	0 0%	5	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	37%	2%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	82	48 59%	31 38%	0 0%	0 0%	3	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	82	36 44%	28 34%	10 12%	0 0%	8	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		48%	43%	7%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	82	41 50%	25 30%	9 11%	1 1%	6	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		59%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	82	38 46%	24 29%	12 15%	3 4%	5	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	38%	3%	0%		
My child is safe at school.	82	42 51%	30 37%	8 10%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	80	34 42%	18 22%	8 10%	3 4%	17	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	5%	2%		
I am kept well informed about my child's progress.	81	33 41%	35 43%	7 9%	6 7%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		48%	41%	9%	2%		



	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	82	37 45%	28 34%	8 10%	9 11%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	82	34 41%	28 34%	10 12%	6 7%	4	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	82	36 44%	34 41%	5 6%	2 2%	5	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	80	31 39%	19 24%	5 6%	2 2%	23	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	82	20 24%	29 35%	19 23%	12 15%	2	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	39%	6%	1%		
The school is well run.	81	32 40%	32 40%	12 15%	3 4%	2	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	4%	2%		

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Eleri Hurley	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Gwen Aubrey	Arolygydd Lleyg
Aled Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Anita Tucknutt	Arolygydd Cymheiriaid
Louise Morris	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.